Beth am y dioddefwyr?

Pwrpas MAPPA yw amddiffyn y cyhoedd. Bydd pob cyfarfod MAPP yn nodi pwy y gallai troseddwr fod yn risg iddynt a sut y gellir amddiffyn y bobl hyn.

Ym mhob achos ble dedfrydwyd troseddwr i 12 mis o garchar neu fwy am drosedd rywiol neu dreisgar, cynigir cyswllt i'r dioddefwr neu ddioddefwyr gan y Swyddog Cyswllt Dioddefwr (VLO) y gwasanaeth prawf. Bydd y VLO yn hysbysu'r dioddefwr o unrhyw ddigwyddiadau o bwys yn y ddedfryd a'u helpu i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i'w barn wrth gynllunio ar gyfer rhyddhau troseddwr. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, amodau atodol yn y drwydded yn dilyn rhyddhau i atal y troseddwr rhag cysylltu â'r dioddefwr neu i wahardd y troseddwr rhag ymweld â'r ardal ble mae'r dioddefwr yn byw.

Ni fydd dioddefwyr yn mynychu cyfarfodydd MAPP, ond mi fydd y VLO yn bresennol. Bydd y VLO yn sicrhau y rhoddir cynrychiolaeth gywir i farn ac anghenion y dioddefwr.

Beth am gyfrinachedd?

Delir ag unrhyw wybodaeth a rennir mewn cyfarfod MAPP gyda chyfrinachedd llwyr a dim ond i'r perwyl o amddiffyn y cyhoedd y'i defnyddir.

A fyddwch byth yn datgelu gwybodaeth i'r cyhoedd?

Bydd pob cyfarfod MAPP yn ystyried a ddylid datgelu er mwyn amddiffyn y cyhoedd, yn arbennig plant. Pan fydd y cyfarfod MAPP yn penderfynu y dylid datgelu, bydd yn cytuno ar y canlynol: pwy fydd yn derbyn yr wybodaeth, gan bwy, sut y dylid gwneud hyn a phryd.

Sut allaf ddysgu mwy am MAPPA?

Mae gan bob ardal Heddlu/Prawf yng Nghymru a Lloegr Fwrdd Rheoli Strategol (SMB) sy'n gyfrifol am sicrhau fod MAPPA'n gweithio'n dda yn eich ardal. Bydd uwch reolwyr o Wasanaethau'r Heddlu Prawf a Charchardai (sy'n llunio'r Awdurdod Cyfrifol a gyda'i gilydd sy'n gyfreithiol gyfrifol am reolaeth o MAPPA) yn mynychu'r SMB, ynghyd â'r asiantaethau hynny sydd â 'dyletswydd i gydweithredu'. Yr asiantau hyn yw: Timau Troseddu Ieuenctid, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd, Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, Tai Awdurdodau Lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Canolfan Byd Gwaith a Darparwyr Monitro Electronig. Bydd dau aelod o'r cyhoedd, a adnabyddir fel Ymgynghorwyr Lleyg, hefyd yn eistedd ar yr SMB.

Pob blwyddyn, bydd eich SMB yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol MAPPA a galwch ddarllen yr adroddiad ar: www.probation.justice.gov.uk

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'ch cydlynydd MAPPA yn ôl y manylion cyswllt a geir yn yr Adroddiad Blynyddol MAPPA neu trwy bencadlys Heddlu neu Wasanaeth Prawf eich ardal a fydd yn gallu darparu manylion cyswllt i chi.

Hawlfraint y Goron 2008

HM PRISON SERVICE

NATIONAL PROBATION SERVICE

Pwy sy'n amddiffyn y cyhoedd rhag troseddwyr treisgar a rhywiol?

CADW'N CYMUNEDAU'N DDIOGEL

Rheoli Risg trwy MAPPA

MAPPA

Beth yw MAPPA?

Acronym o'r Saesneg am Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd yn MAPPA. Dyma'r broses ble mae Gwasanaethau'r Heddlu, Prawf a Charchardai yn cydweithio gydag asiantau eraill i reoli'r risgiau sy'n codi o gael troseddwyr treisgar a rhywiol yn byw yn y gymuned er mwyn amddiffyn y cyhoedd.

Pwy a reolir trwy MAPPA?

Mae tri categori o droseddwyr treisgar a rhywiol a reolir trwy MAPPA: Rhaid i Droseddwyr rhywiol cofrestredig hysbysu'r heddlu o'u henw, cyfeiriad a manylion personol eraill dan amodau'r Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003. Gall y cyfnod o amser y mae'n rhaid i droseddwr fod wedi cael ei gofrestru gyda'r Heddlu amrywio o 12 mis i oes, yn dibynnu ar oedran y troseddwr, oed y dioddefwr a natur y drosedd a'r ddedfryd a dderbyniont. Troseddwyr treisgar a ddedfrydwyd i 12 mis neu fwy o garchar neu i'w cadw mewn ysbyty ac sydd bellach yn byw yn y gymuned dan orchymyn Prawf. Mae'r categori hwn hefyd yn cynnwys nifer fechan o bobl sydd wedi eu gwahardd rhag gweithio gyda phlant. Troseddwyr Peryglus eraill sydd wedi cyflawni trosedd rhywiol neu dreisgar yn y gorffennol ac a ystyrir i fod yn risg o niwed difrifol i'r cyhoedd.

Sut mae MAPPA'n gweithio?

Asesir holl droseddwyr MAPPA i sefydlu'r lefel o risg o niwed maent yn cyflwyno i'r cyhoedd. Yna fe lunnir cynlluniau rheoli risg ar gyfer pob troseddwr i reoli'r peryglon hynny. Galluoga MAPPA i asiantau asesu a rheoli troseddwyr trwy gydweithio, rhannu gwybodaeth a chwrdd, yn ôl y galw, i sicrhau y gweithredir cynlluniau

Mae tri lefel o reolaeth yn MAPPA. Maent yn seiliedig yn bennaf ar y lefel o gydweithio amlasiantaethol sydd angen, gyda'r achosion o risg uchaf yn dueddol o gael eu rheoli ar lefelau uwch. Symudir troseddwyr i fyny ac i lawr lefelau fel fo'n briodol.

Lefel 1 – Mae rheolaeth asiantaeth gyffredin ar gyfer troseddwyr y gellir eu rholi gan un neu ddwy asiantaeth (e.e. heddlu ac/neu wasanaeth prawf). Bydd yn gofyn am rannu gwybodaeth am y troseddwr gydag asiantaethau eraill os bydd angen ac yn briodol. Lefel 2 – Mae rheolaeth aml-asiantaeth gweithredol ar gyfer troseddwyr ble mae angen cyfraniad parhaus nifer o asiantau i reoli'r troseddwr. Unwaith ar lefel 2, cynhelir cyfarfodydd Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPP) rheolaidd i drafod y troseddwr. Lefel 3 – Yr un trefniant a lefel 2, ond mae achosion sy'n gymwys ar gyfer lefel 3 yn dueddol o alw am fwy o ddefnydd o adnoddau ac angen cyfraniad gan uwch staff asiantaethau er mwyn awdurdodi defnydd atodol o adnoddau. Er enghraifft, gwyliadwriaeth o droseddwr neu lety brys.

Nid yw'n bosibl dileu pob risg ac mae rhai troseddwyr a fydd yn parhau i fod yn berygl i eraill ac a allai achosi niwed i rywun arall. Gan ddilyn y drefn hon, gallwn wneud popeth posibl i reoli a gostwng y risg hwnnw.

Beth sy'n digwydd os na fydd y troseddwr yn cydymffurfio?

Gellir dwyn troseddwyr rhywiol cofrestredig nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion hysbysu gerbron llys gan yr Heddlu a gallant dderbyn dirwy ac/neu hyd at 5 mlynedd o garchar.

Rhaid i unrhyw droseddwr dan oruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf gydymffurfio ag amodau eu gorchymyn neu drwydded. Bydd methiant i wneud hyn yn arwain at weithredu yn eu herbyn. I'r rhai ar drwydded, gallai hyn olygu dychwelyd i'r carchar ac, mewn sefyllfaoedd brys, gallai hyn ddigwydd o fewn dwy awr. Nid yw methiant i gydymffurfio o reidrwydd yn golygu eu bod wedi troseddu; gallai olygu methu apwyntiad neu unrhyw ymddygiad sy'n peri gofid.

A yw troseddwyr yn mynychu cyfarfodydd MAPP?

Nid yw troseddwyr fel arfer yn mynychu cyfarfodydd MAPP, ond fe roddir gwybod iddynt am y cyfarfod a'r penderfyniadau a wnaed.